MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug

23ain Hydref 2026

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar 28ain Hydref, 2026** yn Swyddfeydd y Cyngor Tref, Uned 10 Canolfan Daniel Owen neu drwy Gynhadledd Fideo, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

AGENDA

CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad am eitemau sydd wedi eu rhestru ar yr agenda. Clustnodir hyd at 15 munud, heb roi mwy na 5 munud i bob pwnc.

Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gall aelod o'r cyhoedd godi mater nad yw ar yr agenda am hyd at 5 munud. Ni chaiff y Cyngor wneud penderfyniadau na thrafod eitemau nad ydynt at yr agenda yn y cyfarfod, ond gellir gwneud nodyn o'r rhain i dderbyn ystyriaeth yn y dyfodol.

Gall y Cadeirydd ymyrryd i gadw trefn, atal sylwadau amherthnasol neu amharchus, neu ohirio'r cyfarfod os oes raid.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

Derbyn Cyhoeddiadau'r Maer.

4. COFNODION

4.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 28ain Medi 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 30ain Medi 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod Eithriadol y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 7fed Hydref 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi ac Archwilio a gynhaliwyd ar 13eg Hydref 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.5 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.6 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 20fed Hydrefn 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. Y RHESTR WEITHREDU

Nodi'r Rhestr Weithredu ddiweddaraf sydd ynghlwm.

6. GOHEBIAETH

Derbyn ac **ystyried** yr ohebiaeth ddilynol:

(i) Ysgol Gynradd St David's – Llywodraethwr Ysgol
(ii) Outside Lives – Cais am lythyr cefnogaeth gan Gyngor Tref yr Wyddgrug
(iii) Band Cyngerdd Tref yr Wyddgrug – Cais i ryddhau cymorth ariannol a gymeradwywyd, fel y darperir ar ei gyfer yng nghyllideb gymeradwy'r Cyngor Tref ar gyfer 2026/27.
(iv) Cangen yr Wyddgrug o Nationwide – Diffibriliwr a Phecyn Trin Gwaedu

7. ADRODDIADAU SWYDDOGION

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned (wedi'i atodi).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (wedi'i atodi).

Ystyried a gwneud **penderfyniadau** ar y materion canlynol sy'n codi o Adroddiad Clerc y Dref:

- Aelodaeth y Pwyllgor Polisi ac Archwilio: Ystyried penodi un neu ddau Gynghorydd ychwanegol i'r Pwyllgor Polisi ac Archwilio yn dilyn marwolaeth drist y Cynghorydd Teresa Carberry.
- Stondin Gwisg Ysgol – Rhoddion: Ystyried a chytuno ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer rheoli a defnyddio'r £694.73 sy'n cael ei gadw'n ddiogel o'r Stondin Gwisg Ysgol – menter a reolwyd yn annibynnol yn flaenorol gan y Cynghorydd Teresa Carberry – gan sicrhau bod yr arian yn parhau i gefnogi teuluoedd lleol sydd mewn angen.

8. CYNRYCHIOLWYR AR GYFER Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL – SWYDDOGION AWDURDODEDIG

Ystyried a **chymeradwyo** penodi o leiaf tri Chynghorydd Tref yn Swyddogion Awdurdodedig ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

Mae Clerc y Dref, yn rhinwedd ei swydd fel Cynrychiolydd Enwebedig y Cyflogwr, yn gyfrifol am weinyddu trefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) y Cyngor. Mae gofyn i Swyddogion Awdurdodedig wirio ac awdurdodi dogfennau pensiwn perthnasol yn annibynnol, gan gynnwys ffurflenni ar gyfer gweithwyr sy'n gadael a ffurflenni eraill sy'n berthnasol i'r cynllun.

9. GWOBRAU CYMUNEDOL YR WYDDGRUG

Derbyn ac **ystyried** yr adroddiad sydd ynghlwm gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned, sy'n amlinellu newidiadau arfaethedig i gategorïau'r Gwobrau Cymunedol, a phenderfynu a ddylid cymeradwyo'r argymhellion sydd yn yr adroddiad.

10. GWEITHGOR CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

Derbyn ac **ystyried** yr adroddiad a'r argymhellion sydd ynghlwm, gan y Gweithgor Cyfleusterau Cyhoeddus.

11. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR POLISI AC ARCHWILIO

Derbyn ac **ystyried** argymhellion y Pwyllgor Polisi ac Archwilio mewn perthynas â'r polisïau diwygiedig a'r rhai sydd newydd eu datblygu a restrir isod, a chymeradwyo eu mabwysiadu.

(a) Polisi Rheoli Cofnodion a Chadw Dogfennau – wedi'i ddiweddaru
(b) Model Rheolau Sefydlog 2026 (Cymru) – wedi'i ddiweddaru

(c) Rheoliadau Ariannol – wedi'u diweddaru
(d) Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl (Newydd)
(e) Polisi Biniau Halen (Newydd)

12. COEDEN GOFFA

Ystyried awgrym a dderbyniodd y Cynghorydd Nanette Davies gan breswylydd, ynghylch plannu Coeden Goffa i'r Cynghorydd Carberry.

13. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

Ystyried yr Adroddiad Blynyddol drafft sydd ynghlwm ar gyfer 2025/26.

14. HYSBYSIAD CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad sydd ynghlwm.

15. CYFRIFON/ TALIADAU

Cymeradwyo'r amserlenni talu sydd ynghlwm ar gyfer cyfrifon y Cyngor Tref i gyd ym Mis 6. Maen nhw'n nodi bod taliadau wedi'u gwneud yn unol â'r pwerau statudol perthnasol sydd ar gael i gynghorau lleol.

16. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG

Ystyried penderfyniad o dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 i eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod pan ystyrir yr eitemau busnes canlynol, oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd i gael eu trafod.

17. TREFNIADAU STAFFIO A STRWYTHUR Y DYFODOL

Ystyried adroddiad cyfrinachol sy'n ymwneud â chais i newid oriau gwaith cytundebol, a threfniadau staffio yn y dyfodol.

18. CLERC Y DREF – ADOLYGIAD O'I RÔL

Ystyried adroddiad cyfrinachol i adolygu disgrifiad swydd, teitl swydd a graddfa gyflog Clerc y Dref.

CYFARWYDDIADAU ZOOM

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom
https://us02web.zoom.us/j/81710049564?pwd=NvWQANBADjcJTz7uTnx9QoLsV8FCx1.1

ID y Cyfarfod: 817 1004 9564
Cyfrinair: 391069